Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Medr/2026/36: Atodiad D

# Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr

## Sefydliadau addysg bellach

## Manyleb y Rhaglen

Mae’r fersiwn yma o’r fanyleb yn ddilys nes hysbysir y sector AB fel arall.

Gorffennaf 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys

1. Cefndir ..... 3
2. Nod y Rhaglen ..... 4
3. Cynnwys y Rhaglen ..... 4
   a) Costau addysgu (y dangosir tystiolaeth ohonynt trwy LLWR) ..... 5
   b) Costau eraill (y dangosir tystiolaeth ohonynt trwy'r datganiad o wariant) ..... 5
4. Cyllid, Monitro a Gwerthuso ..... 6
5. Gofynion Cyflwyno Data ..... 7
   Dysgu mewn Grŵp ..... 7
   Dysgu 1:1 ..... 7
   Codau Rhaglen ..... 7
6. Manylion Cyswllt ..... 8
7. Atodiadau ..... 9
   A. Datganiad o Wariant – Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr ..... 9
   B. Templed Cyllid, Monitro a Gwerthuso ..... 10
   Tabl cyllid ..... 10
   C. Cyllid, Monitro a Gwerthuso – Canllawiau Cwblhau ..... 16
   Tabl cyllid ..... 16
   D. Templed ar gyfer Astudiaeth Achos Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr –Dewisol * ..... 18

## 1. Cefndir

Mae Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr wedi cael ei ddyrannu er mwyn galluogi chweched dosbarth awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i ddarparu oriau dysgu ychwanegol i ddysgwyr ym mlynyddoedd 12, 13, ac uwch.

Darparwyd y cyllid ychwanegol hwn i gydnabod bod pandemig COVID wedi tarfu ar ddysgwyr. Gan hynny, efallai y bydd angen rhagor o gymorth ac arweiniad ar ddysgwyr er mwyn helpu i ddiogelu eu llesiant, datblygu eu gwydnwch, a'u galluogi i ennill eu cymwysterau'n llwyddiannus.

Mewn adroddiad diweddar gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), "What Shapes Pathways and Transitions?", nodwyd fod dysgwyr yng Nghymru yn teimlo'n llai hyderus ynglŷn â dysgu'n annibynnol a'r gweithgareddau sy'n ategu hynny, megis trefnu eu hamser a monitro eu cynnydd, na chyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

Mae adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd hefyd yn rhoi awgrym polisi i Gymru archwilio'r posibilrwydd o greu llwybrau dilyniant sy'n adeiladu ar y sylfeini sydd gan ddysgwyr wrth gychwyn ar addysg ôl-16, gan gynnwys llenwi bylchau a gwneud iawn am wybodaeth a sgiliau coll, a chreu llwybr tuag at 'gwblhau'.

Yn ddiweddar, mae Estyn wedi cyhoeddi adroddiadau thematig ar Feithrin parch ar y ddwy ochr – hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd ac Ymddygiad Dysgwyr mewn Colegau Addysg Bellach. Mae'r naill adroddiad a'r llall yn cydnabod effeithiau parhaus y pandemig sy'n parhau i siapio ymddygiad dysgwyr, gyda llawer o bobl ifanc yn arddangos oedi mewn datblygiad, yn enwedig o ran sgiliau cymdeithasol a gwydnwch. Er bod effeithiau uniongyrchol y pandemig wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r heriau sy'n weddill i'w gweld yn ymgysylltiad dysgwyr a'u capasiti i ymdopi â phwysau academaidd.

Mae'r adroddiad *Meithrin parch ar y ddwy ochr – hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd* yn awgrymu bod llawer o resymau pam y gallai disgyblion arddangos ymddygiad heriol. Mae'r rhain yn cynnwys ansefydlogrwydd teuluol, pwysau economaidd-gymdeithasol, problemau iechyd meddwl ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae problemau ymddygiad cyffredin a nodwyd gan ysgolion yn cynnwys tarfu lefel-isel parhaus, gweithredoedd herfeiddiol ac, i raddau llai, gwrthdaro corfforol. Mae ffactorau allanol megis dylanwad y cyfryngau cymdeithasol a materion sy'n gysylltiedig â'r gymuned fel ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi arwain at ymddygiadau mwy cymhleth a welir mewn ysgolion. Mae'r adroddiad yn argymell y dylai ysgolion gryfhau eu systemau rheoli ymddygiad trwy gynnwys yr holl randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion sy'n eu bwydo, rhieni a gofalwyr, llywodraethwyr ac awdurdodau lleol, wrth ddatblygu polisi a phrosesau eglur a chyson.

Mae'r adroddiad ar *Ymddygiad Dysgwyr mewn Colegau Addysg Bellach* yn cydnabod bod ymddygiadau negyddol yn dal i fod yn amlwg mewn colegau, a bod hwyrni, absenoldeb, defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol, a fepio yn faterion yr adroddir amdanynt yn gyffredin. Mae ymddygiadau mwy pryderus, er eu bod yn llai mynych, yn cynnwys achosion o aflonyddu rhywiol, camddefnyddio sylweddau, a thrais rhwng cyfoedion. Er ei fod yn cydnabod bod Colegau fel rheol yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol mewn

rheoli ymddygiad ac arferion sy'n ystyriol o drawma, mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod eu bod ar gamau amrywiol o ran gwreiddio arferion rheoli ymddygiad.

## 2. Nod y Rhaglen

Nod y cyllid yw sicrhau:

- bod dysgwyr yn cael cyfle i adolygu dysgu blaenorol a datblygu gwybodaeth er mwyn ateb gofynion eu cwrs, gan ganolbwyntio ar lenwi bylchau mewn gwybodaeth a sgiliau sydd ar goll;
- y rhoddir cymorth bugeiliol penodol i ddysgwyr, gan gynnwys cymorth gyda sgiliau cymdeithasol, gwydnwch a meithrin hyder i'w galluogi i ymdopi'n well â phwysau academaidd, gan hybu dysgu a dilyniant llwyddiannus;
- bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau dysgu'n annibynnol, gan gynnwys sgiliau ymchwil a rheoli amser.
- bod Colegau yn gallu sefydlu systemau effeithiol â fframweithiau eglur i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a gweithredu strategaethau er mwyn helpu i wella ymddygiad a phresenoldeb (**uchafswm o 10%** o'r dyraniad cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr gwreiddiol heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw).

Mae adroddiad Estyn Ymddygiad Dysgwyr mewn Colegau Addysg Bellach yn argymell bod colegau'n gwneud y canlynol:

> A1 Cydweithio i sicrhau bod y rhai sydd â dulliau rheoli ymddygiad llai datblygedig yn gallu dysgu oddi wrth y rhai sydd â systemau a phrosesau mwy sefydledig, gan eu galluogi i wella a mireinio eu harferion hwy eu hunain
>
> A2 Sicrhau bod arweiniad clir ar gael i ddysgwyr ar ddefnydd cyfrifol o'r cyfryngau cymdeithasol a rhoi strategaethau wedi'u targedu ar waith i reoli camddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol trwy ddysgu ac addysgu, a phrosesau rheoli ymddygiad
>
> A4 Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr a staff am argaeledd timau a gwasanaethau cymorth ymddygiad arbenigol, gan sicrhau sianeli cyfathrebu eglur a chyfeirio gweladwy ar hyd a lled amgylchedd y coleg
>
> A5 Mynd ati ymhellach i ddatblygu cymorth sydd wedi'i deilwra ac sy'n gynhwysol ar gyfer dysgwyr sy'n teimlo'n fwy agored i niwed o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig, gan sicrhau bod systemau cymorth ymddygiad yn diwallu eu hanghenion unigryw

## 3. Cynnwys y Rhaglen

Bydd gan bob darparwr ei safbwynt ei hun ynghylch sut orau i gefnogi ei ddysgwyr a bydd hyn yn amrywio gan ddibynnu ar y rhaglenni a gynhelir yn ogystal â nodweddion y dysgwyr. Fodd bynnag, dylai Darparwyr[1]:

[1] Argymhellion Estyn yw'r rhain.

- Fod â gweledigaeth glir ar gyfer y deilliannau y maent yn dymuno eu cael o'r cyllid ychwanegol hwn
- Gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu strategaethau i gefnogi cynnydd a llesiant dysgwyr
- Tracio a gwerthuso effaith unrhyw wariant ychwanegol yn rheolaidd er mwyn addasu cynlluniau cyfredol a goleuo cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Er gwybodaeth yn unig y darperir yr enghreifftiau isod, ac maent yn dangos sut y gellid defnyddio'r cyllid.

**a) Costau addysgu (y dangosir tystiolaeth ohonynt trwy LLWR)**

i. Oriau grŵp ychwanegol gan gynnwys:
   - oriau estynedig wedi'u hamserlennu bob wythnos ar gyfer pob pwnc
   - uwchsgilio penodol wedi'i dargedu yn ôl pwnc (h.y., Mathemateg ar gyfer Ffiseg, Saesneg Iaith ar gyfer Cymdeithaseg)
   - blociau o addysgu penodol ar gyfer Mathemateg/Saesneg
   - gwersi ychwanegol ar ffurf gweithdai, gwaith labordy, grwpiau stiwdio

ii. Addysgu 1 i 1 ychwanegol:
   - gwersi pwnc-benodol
   - gwersi Mathemateg a/neu Saesneg
   - amser gweithdy penodol ar gyfer gwaith ymarferol / sgiliau llaw / sgiliau labordy / sgiliau stiwdio

iii. Cymorth bugeiliol (heb fod yn gysylltiedig â darpariaeth o fewn maes pwnc):
   - oriau ychwanegol wedi'u hamserlennu i roi cymorth ar gyfer gwydnwch, dychwelyd at ddysgu, gosod nodau, meithrin hyder, paratoi ar gyfer arholiad(au), sgiliau astudio, sgiliau cyflwyno (grŵp neu 1-i-1)
   - deunyddiau cymorth ar-lein ar gyfer darpariaeth i grwpiau bychain

iv. Gweithgareddau sgiliau astudio ychwanegol:
   - darpariaeth sgiliau astudio ychwanegol i grwpiau bychain yn ôl lefel
   - gweithgareddau sefydlu estynedig, ysgolion haf, ac ysgolion hanner tymor
   - digwyddiadau a gweithgareddau cyfoethogi ar gyfer 'dysgwyr mwy abl a thalentog'
   - Sgiliau dysgu'n annibynnol

**b) Costau eraill (y dangosir tystiolaeth ohonynt trwy'r datganiad o wariant)**

i. Gwasanaethau cymorth i ddysgwyr:
   - Swyddog Llesiant ychwanegol i gefnogi presenoldeb ac ymyrryd yn gynnar
   - cymorth ychwanegol gan Gynorthwywyr Cymorth Dysgu er mwyn helpu dysgwyr y tu allan i'r ystafell ddosbarth
   - Cymorth ELSA (cynorthwyydd cymorth llythrennedd emosiynol) i ddysgwyr ag anghenion llesiant emosiynol
   - swyddogion ymgysylltu â dysgwyr ychwanegol er mwyn helpu dysgwyr i gael mynediad at y cwricwlwm ehangach a gweithgareddau allgyrsiol

- cwnsela i ddysgwyr ag anghenion iechyd meddwl mwy difrifol
- cymorth TG ychwanegol
- cymorth sgiliau cyflogadwyedd

ii. ii. Gweinyddu

- cynhyrchu deunyddiau 'ymgysylltu' â dysgwyr
- datblygu a gweithredu systemau neu strategaethau effeithiol i hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol

Gall dysgwyr ddysgu mewn grŵp, dysgu 1:1 neu wneud cymysgedd o'r ddau.

**Nid** yw dysgwyr sydd wedi cofrestru ar Raglenni Dysgu Carlam neu Estynedig, lle mae nifer yr oriau dysgu'n uwch na'r nifer safonol, yn gymwys i gael Cyllid Adferiad a Chynnydd dysgwyr.

Gall colegau ddefnyddio, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Medr, hyd at 10% o'u dyraniad cyllidebol gwreiddiol ar ffurf Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr i weithredu strategaethau er mwyn helpu i wella ymddygiad a phresenoldeb.

## 4. Cyllid, Monitro a Gwerthuso

Bydd gan fonitro ac archwilio rôl o ran sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cymhwyso'n gyson ac o ran helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol.

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i fonitro'r modd y cyflawnir y rhaglen. Rhaid i sefydliadau sicrhau bod data'n cael ei gyflwyno yn unol â'r gofynion cyflwyno data a amlinellir yn adran 5 ac mewn modd amserol.

Hefyd, dylai Colegau gwblhau'r canlynol:

- y datganiad o wariant **wedi'i lofnodi gan y Cyfarwyddwr Cyllid** (Atodiad A); a'r
- templed Cyllid, Monitro a Gwerthuso (Atodiad B)

a'u dychwelyd at Medr BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru erbyn **31 Awst 2027**

### Adennill cyllid

O 2026/27, mae cyllid Adfer a Dilyniant Dysgwyr yn un o'r pum ffrwd cyllido sy'n ffurfio 'Cronfa Cymorth a Llesiant' Medr. Mae'r Gronfa Cymorth a Llesiant yn rhoi'r hyblygrwydd i ddarparwyr symud cyllid rhwng ei holl gydrannau.

Mae'r disgwyliadau monitro gofynnol bellach wedi dychwelyd ar gyfer pob ffrwd gyllido sy'n rhan o'r gronfa, felly bydd unrhyw danwariant sy'n is na 100% o gyfanswm dyraniad darparydd o'r Gronfa Cymorth a Llesiant yn cael ei adennill yn llawn. Ni fydd opsiwn i drosglwyddo'r dyraniad hwn i'r blynyddoedd nesaf.

## 5. Gofynion Cyflwyno Data

Mae Llawlyfr Cymorth i Ddefnyddwyr LLWR[2] yn nodi'r canllawiau y dylai sefydliadau eu dilyn wrth gyflwyno data LLWR ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

### Dysgu mewn Grŵp

Ar gyfer dysgu mewn grŵp, dylai'r cod rhaglen Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr (LRPF) ymwneud â sector y rhaglen astudio amser llawn. Er enghraifft, os yw dysgwr ar raglen amser llawn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gwneud oriau grŵp ychwanegol, yna dylai nifer amcangyfrifedig yr oriau a gyllidir â'r Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr gael ei gofnodi[3] yn erbyn cod 0100XXXR.

Yn unol â phob rhaglen, lle mae dysgwr yn rhoi'r gorau i'r rhaglen o fewn yr 8 wythnos gyntaf, ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei alinio â'r dysgwr hwnnw.

Unwaith y mae'r oriau grŵp ychwanegol wedi cael eu darparu'n llawn, dylai nifer gwirioneddol yr oriau a gyllidwyd â'r Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr gael ei ddiweddaru[4] i adlewyrchu'r oriau a ddarparwyd. Dim ond os ceir newid sylweddol i'r oriau gwreiddiol a amserlennwyd y mae'n ofynnol newid yr amcangyfrif o oriau Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr a gofnodwyd yn flaenorol. Nid oes angen newid yr oriau i adlewyrchu'r ffaith bod dysgwr wedi bod yn absennol am bythefnos, er enghraifft.

Sylwer, lle nad yw'r cod rhaglen Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr yn cyd-fynd â maes sector y rhaglen amser llawn, byddir yn ystyried bod yr oriau hyn yn anghymwys ar gyfer cyllid.

### Dysgu 1:1

Ar gyfer oriau 1:1, dylid defnyddio cod rhaglen Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr 9900XXXR. Dylid gwneud hyn ni waeth beth fo maes sector pwnc y rhaglen astudio amser llawn.

Unwaith y mae'r oriau 1:1 ychwanegol a gyllidir â'r Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr wedi cael eu darparu, dylai nifer gwirioneddol yr oriau gael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r oriau a ddarparwyd mewn gwirionedd a dylai gyfateb â systemau monitro mewnol y darparwr sy'n logio cymorth 1:1.

### Codau Rhaglen

Dylid defnyddio'r codau rhaglen canlynol (LP74) ar gyfer dysgwyr sy'n cyfranogi mewn cyrsiau Ymgysylltu:

| | |
|---|---|
| 0000XXXR | Oriau Grŵp: Addysg Gyffredinol |
| 0100XXXR | Oriau Grŵp: Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal |
| 0200XXXR | Oriau Grŵp: Gwyddoniaeth a Mathemateg |
| 0300XXXR | Oriau Grŵp: Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid |

[2] This can be accessed at Lifelong learning Wales record.
[3] For LLWR submissions this related to field LP69.
[4] For LLWR data submissions, this relates to field LP71.

| | |
|---|---|
| 0400XXXR | Oriau Grŵp: Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu |
| 0500XXXR | Oriau Grŵp: Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig |
| 0600XXXR | Oriau Grŵp: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| 0700XXXR | Oriau Grŵp: Menter Manwerthu a Masnachol |
| 0800XXXR | Oriau Grŵp: Hamdden, Teithio a Thwristiaeth |
| 0900XXXR | Oriau Grŵp: Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi |
| 1000XXXR | Oriau Grŵp: Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth |
| 1100XXXR | Oriau Grŵp: Y Gwyddorau Cymdeithasol |
| 1300XXXR | Oriau Grŵp: Addysg a Hyfforddiant |
| 1400XXXR | Oriau Grŵp: Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith |
| 1500XXXR | Oriau Grŵp: Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith |
| 9900XXXR | Oriau 1:1 |

## 6. Manylion Cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau sy’n ymwneud â chynnwys y Fanyleb Rhaglen hon, cysylltwch â Medr: BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

## 7. Atodiadau

### A. Datganiad o Wariant – Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

| | |
|---|---|
| **Dychweler i:** | BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru |
| **Dychweler erbyn:** | 31 Awst 2027 |

| | |
|---|---|
| **Enw'r Sefydliad AB** | |
| **Cyfanswm y Gwariant ar gyfer Gweithgarwch Adferiad a Chynnydd Dysgwyr** | |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad yr Asesiad Allanol Diwethaf o'r swyddogaeth Archwilio Mewnol** | |
| **Cynhaliwyd gan** | |
| **A yw'n cydymffurfio â PSIAS 1312? Ydy/Nac ydy** | |

Yr wyf yn tystio trwy hyn, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod yr wybodaeth a roddir uchod yn gywir a bod yr holl wariant yn unol â'r nodau ac amcanion cytunedig a'r Telerau ac Amodau Cyllid cysylltiedig.

Yr wyf hefyd yn tystio bod cofnodion cyfrifyddu eglur wedi cael eu cadw ar lefel darparwyr i ddangos y cafwyd y cyllid ac y'i dosbarthwyd wedi hynny i'r priod faes gwasanaeth; a bod y cyllid wedi'i gwmpasu gan reolaethau ariannol arferol y Sefydliadau, gan gynnwys adolygiad cyfnodol gan y gwasanaeth archwilio mewnol.

| | **Cyfarwyddwr Cyllid (neu swyddog cyfatebol)** |
|---|---|
| **Enw** | |
| **Llofnod** | |
| **Dyddiad** | |

## B. Templed Cyllid, Monitro a Gwerthuso

**Dylai hwn gael ei gwblhau a'i gyflwyno ar y ddogfen a ddarparwyd.**
Cyfeiriwch at y nodiadau cyfarwyddyd isod wrth gwblhau'r wybodaeth hon.

| Teitl y Grant | Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr | Cyfnod y Cyllid | Blwyddyn Academaidd 2026/27 |
|---|---|---|---|
| SAB | | E-bost Cyswllt | |

**Tabl cyllid**
Cyfeiriwch at y nodiadau cyfarwyddyd cyn cwblhau

| **Defnydd o'r cyllid** Dewiswch o'r blwch sy'n cynnwys y gwymplen a darparwch ragor o wybodaeth yn y blwch Sylwadau. **Os yw'r addysgu mewn grŵp neu 1-1 ar gyfer Cymorth Bugeiliol, cynhwyswch naratif yn y blwch sylwadau i adlewyrchu hyn** | Cyllid/ Gwariant (£) | Bras amcan o nifer y buddiolwyr unigryw | Bras amcan o nifer y buddiolwyr fel % o'r garfan gyfan | Rhowch sgôr i effaith y gwariant ar raddfa o 1-10 (gweler y nodiadau cyfarwyddyd am ddisgrifyddion) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| Dewiswch eitem | | | | | |
| **Cyfanswm** | £ | | | | |

## Gwerthuso

**C1) Ar y cyfan, pa mor effeithiol oedd y cyllid o ran sicrhau'r deilliannau a fwriadwyd?**

Myfyriwch ynghylch yr hyn a gyflawnwyd mewn perthynas â'r amcanion gwreiddiol. Efallai y byddwch yn dymuno disgrifio'r hyn a ysgogodd y gwaith a gyflawnwyd. A gafwyd unrhyw ddeilliannau annisgwyl (yn rhai cadarnhaol neu negyddol)? A oedd angen addasu'r gweithgarwch a gyllidwyd/y gwariant mewn unrhyw ffordd yn ystod y cyfnod? Efallai yr hoffech chi wneud sylw am y gwerth a sicrhawyd o'i gymharu â swm y cyllid, h.y. gwerth am arian.

| Dewiswch sgôr ar raddfa o 1-5 | 1<br>Ddim yn effeithiol o gwbl | 2 | 3<br>Gweddol effeithiol | 4 | 5<br>Effeithiol iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhowch ymateb ysgrifenedig cryno | | | | | |

**C2a) Dywedwch wrthym sut y mae'r gweithgareddau a ddarparwyd trwy'r Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr wedi bod o fudd i ddysgwyr ag anghenion cymorth.**

**Dywedwch wrthym sut y mae'r gweithgareddau a ddarparwyd trwy'r Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr wedi bod o fudd i ddysgwyr ag ADY.**

Mae dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn golygu rhywun sydd ag anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael fel arfer i ddysgwyr o'r un oedran, gyda'r anghenion hyn a'r ddarpariaeth ofynnol yn cael eu hadnabod yn ffurfiol a'u cofnodi mewn Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Gweler Y cod anghenion dysgu ychwanegol i gael rhagor o wybodaeth.

**Dywedwch wrthym sut y mae'r gweithgareddau a ddarparwyd trwy'r Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr wedi bod o fudd i ddysgwyr ag anghenion cymorth eraill**

Dysgwyr ag anghenion cymorth – Ystyr dysgwr ag anghenion cymorth (nad yw'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ADY) yw rhywun sy'n profi rhwystrau i ddysgu ond y gellir diwallu ei anghenion trwy gymorth galluogol neu addasiadau rhesymol o fewn darpariaeth sydd ar gael yn gyffredinol, heb i CDU fod yn ofynnol. Er enghraifft, gall hyn gynnwys cymorth ymyrryd byrdymor, addysgu gwahaniaethol a chymorth bugeiliol neu gymorth gyda llesiant.

| | |
|---|---|
| Nifer y dysgwyr ag ADY yr ymgysylltwyd â hwy dan y Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr | |
| Nifer y dysgwyr ag anghenion cymorth eraill yr ymgysylltwyd â hwy dan y Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr | |

| | |
|---|---|
| Tua pha ganran o’ch cyllid a ddefnyddiwyd i weithio gyda dysgwyr ag ADY? | |
| Tua pha ganran o’ch cyllid a ddefnyddiwyd i weithio gyda dysgwyr ag anghenion cymorth eraill? | |

Pa sgôr fyddech chi’n ei roi i’r effaith gadarnhaol ar y dysgwyr hynny ag ADY? Rhowch ymateb ysgrifenedig i egluro eich sgôr hefyd.

| Dewiswch sgôr ar raddfa o 1-5 | 1<br>Dim effaith | 2 | 3<br>Effaith gymedrol | 4 | 5<br>Effaith gadarnhaol |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhowch ymateb ysgrifenedig cryno | | | | | |

Pa sgôr fyddech chi’n ei roi i’r effaith gadarnhaol ar y dysgwyr hynny ag anghenion cymorth eraill? Rhowch ymateb ysgrifenedig i egluro eich sgôr hefyd.

| Dewiswch sgôr ar raddfa o 1-5 | 1<br>Dim effaith | 2 | 3<br>Effaith gymedrol | 4 | 5<br>Effaith gadarnhaol |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhowch ymateb ysgrifenedig cryno | | | | | |

**C2b) Dywedwch wrthym sut y mae'r gweithgareddau a ddarparwyd trwy'r Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr wedi bod o fudd i ddysgwyr sy'n Lwfans Cynhaliaeth Addysg, cyflawnwyr isel neu bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.**

| | |
|---|---|
| Nifer y dysgwyr hyn yr ymgysylltwyd â hwy dan gyllid pontio | |
| Tua pha ganran o'ch cyllid a ddefnyddiwyd i weithio gyda'r dysgwyr hyn? | % |

Pa sgôr fyddech chi'n ei roi i'r effaith gadarnhaol ar y dysgwyr hyn? Rhowch ymateb ysgrifenedig i egluro eich sgôr hefyd.

| Dewiswch sgôr ar raddfa o 1-5 | 1<br>Dim effaith | 2 | 3<br>Effaith gymedrol | 4 | 5<br>Effaith gadarnhaol |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhowch ymateb ysgrifenedig cryno | | | | | |

**C3) Rhowch sgôr i ddynodi sut y bydd y gwaith a gyllidwyd yn cael effaith gadarnhaol ar unrhyw weithgarwch yn y dyfodol yn eich tyb chi.**

Efallai yr hoffech ystyried a wnaeth y gweithgarwch a gyllidwyd/y gwariant arwain at unrhyw welliannau parhaol? h.y., a yw'r cyllid wedi arwain at newidiadau parhaol ynteu a yw newidiadau a gyllidwyd yn rhai dros dro gydag arfer/amgylchiadau'n debygol o newid yn ôl i normau blaenorol unwaith y daw'r cyllid ychwanegol i ben? A yw unrhyw agweddau ar y gwelliannau a gyflawnwyd yn gynaliadwy heb gyllid ychwanegol parhaus? h.y. a fyddant yn dod yn fusnes fel arfer/yn datblygu i fod y norm newydd?

| Dewiswch sgôr ar raddfa o 1-5 | 1<br>Dim effaith | 2 | 3<br>Effaith gymedrol | 4 | 5<br>Effaith gadarnhaol |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhowch ymateb ysgrifenedig cryno | | | | | |

**CQ4) Cynhwyswch unrhyw sylw arall sy'n briodol yn eich tyb chi (dewisol)**

| |
|---|
| |

## C. Cyllid, Monitro a Gwerthuso – Canllawiau Cwblhau

**Tabl cyllid**

| | |
|---|---|
| **Defnydd o'r cyllid** | Defnyddiwch y blwch sy'n cynnwys y gwymplen i ddewis y math o weithgarwch. Darparwch ragor o wybodaeth yn y blwch Sylwadau. |
| **Cyllid / Gwariant (£)** | Rhowch ffigwr i ddangos faint o gyllid a ddefnyddiwyd i alluogi pob math gwahanol o weithgarwch. Cyfrifir y gwariant ar gyfer oriau grŵp ychwanegol, addysgu 1-i-1 ychwanegol, cymorth bugeiliol a gweithgareddau sgiliau astudio ychwanegol trwy LLWR. Rhowch mewn fformat £. |
| **Bras amcan o nifer y buddiolwyr unigryw** | Gan ddibynnu ar y cyd-destun, mae'n dderbyniol rhoi amcangyfrif yma (mewn achosion o'r fath, nodwch hyn yn y golofn sylwadau). Lle y bo modd, cyfrifwch unigolion sydd wedi/yn cael budd uniongyrchol o'r cyllid, yn hytrach na'r rhai a allai fod wedi cael budd ohono (h.y., a gafodd ei gynnig ond na wnaethant fanteisio arno). Hefyd, at ddibenion y tabl hwn, nid oes angen cynnwys buddiolwyr anuniongyrchol. Er enghraifft, bydd cyllid ar gyfer dysgu proffesiynol athrawon o fudd uniongyrchol i'r athrawon dan sylw, ac o fudd anuniongyrchol i'w dysgwyr; yn yr achos hwn dim ond nifer yr athrawon y mae angen ei gynnwys yn y golofn hon. Gellir amlygu buddiolwyr anuniongyrchol yn y golofn sylwadau os yn briodol. Rhowch hwn mewn fformat rhif. |
| **Bras amcan o nifer y buddiolwyr fel % o'r garfan gyfan** | Wrth gyfrifo'r ganran hon, cymerwch yn ganiataol bod y 'garfan gyfan' yn cynnwys nifer y dysgwyr 16-19 oed unigryw a gyllidwyd gan Medr o fewn y darparwr. |
| **Rhowch sgôr i effaith y gwariant ar raddfa o 1 i 10** | 1 Roedd yr effaith yn negyddol iawn, gyda'r gweithgarwch neu'r cyllid yn cael effaith andwyol ar y cyfan; h.y. yn gwneud pethau'n waeth nag y byddent pe na bai'r cyllid wedi cael ei wario<br>2 Ychydig o effaith negyddol ar y cyfan<br>3 Roedd yr effaith yn niwtral ar y cyfan, h.y., ni chafwyd unrhyw fudd net at ei gilydd o ganlyniad i'r gwariant<br>4 Heb ddwyn rhyw lawer o fudd ar y cyfan<br>5 Budd cymedrol ar y cyfan<br>6 Budd addas ar y cyfan<br>7 Budd da ar y cyfan<br>8 Budd da iawn ar y cyfan<br>9 Budd ardderchog ar y cyfan sy'n teilyngu dadansoddiad pellach a sylw cenedlaethol |

| | |
|---|---|
| | 10 Budd eithriadol ar y cyfan sy'n teilyngu dadansoddiad pellach a sylw cenedlaethol |
| **Sylwadau** | Defnyddiwch y golofn hon i roi unrhyw wybodaeth gyd-destunol ychwanegol sy’n ei gwneud yn bosibl cael dealltwriaeth well am yr wybodaeth a roddwyd i mewn yn y tabl. |

## D. Templed ar gyfer Astudiaeth Achos Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr –Dewisol *

*Mae cyflwyno astudiaethau achos yn ddewisol oni bai bod swyddogion Medr wedi gofyn yn benodol i chi wneud hynny. Sylwer, lle y bo’n ddefnyddiol ac yn gyfleus, y gallwch ailadrodd testun sydd eisoes wedi cael ei gynnwys fel rhan o’r cwestiynau monitro a gwerthuso yn yr astudiaethau achos a gyflwynir gennych. Gall astudiaethau achos a gyflwynir gael eu rhannu gyda rhanddeiliaid ehangach.

<table>
<tr><td>Enw’r Coleg:</td></tr>
<tr><td></td></tr>
<tr><td>Gwybodaeth gefndir am y lleoliad/darparwr: Mae’r adran hon wedi’i bwriadu i roi disgrifiad cryno, ffeithiol o’r darparwr a’r gymuned a wasanaethir ganddo. Efallai yr hoffech gynnwys rhai neu bob un o’r canlynol:<ul><li>Nifer y staff/dysgwyr, ystod oedran y dysgwyr. Nifer y dysgwyr yn astudio’n rhan-amser/amser llawn. Nifer y cyrsiau Safon Uwch/galwedigaethol.</li><li>Canran y cofrestriadau Safon Uwch/L3 Galwedigaethol/Lefel 2/Lefel 1.</li><li>Meysydd pwnc â’r gyfran fwyaf o ddarpariaeth.</li><li>Gwybodaeth am yr ysgolion/ardal y caiff dysgwyr eu recriwtio ohonynt/ohoni gan gynnwys ffactorau economaidd-gymdeithasol.</li><li>Gwybodaeth am gefndiroedd dysgwyr gan gynnwys anabledd, ffactorau economaidd-gymdeithasol ac ethnig fel y bo’n briodol.</li></ul></td></tr>
<tr><td></td></tr>
<tr><td>Cyd-destun a chefndir y strategaeth/gweithgarwch: Mae’r adran hon yn egluro sut yr adnabuwyd yr angen a’r buddiolwyr bwriadedig, natur yr angen a’r gweithgarwch cynllunio a gyflawnwyd<ul><li>Prif resymau dros roi’r strategaeth/gweithgarwch ar waith</li><li>Amcanion</li><li>Cost</li><li>Grwpiau o ddysgwyr a dargedwyd</li></ul></td></tr>
<tr><td></td></tr>
</table>

| |
|---|
| |
| **Disgrifiad o natur y strategaeth neu'r gweithgarwch a adnabuwyd:** ae'r adran hon yn darparu manylion y dull(iau) a ddefnyddiwyd a natur y gwaith.<br>• Disgrifiad manwl o'r strategaeth/gweithgarwch gan gynnwys manylion unrhyw gydweithio gyda darparwyr neu sefydliadau eraill.<br>• Gellir cynnwys ffotograffau/lluniau/tablau (yn amodol ar y caniatâd angenrheidiol) |
| |
| **Effaith y strategaeth/gweithgarwch:** Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y gwahaniaeth a wnaed i'r buddiolwyr bwriadedig. Gall gynnwys dyfyniadau gan ddysgwyr, aelodau o staff a rhanddeiliaid perthnasol eraill (wedi'u gwneud yn ddienw fel y bo'n addas a/neu gyda chaniatâd wedi cael ei sicrhau).<br>Gallai hyn gynnwys effaith ar;<br>• Ddysgu<br>• Presenoldeb dysgwyr<br>• Ymddygiad dysgwyr<br>• Hyder a gwydnwch dysgwyr<br>• Sgiliau dysgu'n annibynnol, gan gynnwys rheoli amser ac ymchwil. |
| |
| **Sylwadau ychwanegol:**<br>• Sut ydych chi wedi dathlu/rhannu'r arfer gorau yma?<br>• Pa mor gynaliadwy yw'r gweithgarwch/strategaeth yma?<br>• Beth yw'r gwersi a ddysgwyd a beth ellir parhau ag ef yn y dyfodol? |

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** Llofnodwr awdurdodedig ar ran y Coleg | |
| **Enw:** | |
| **Teitl swydd:** | |
| **Dyddiad:** | |

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government